**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ynghylch yr ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi amlinelliad i'r Pwyllgor ynghylch y prif gynigion a geir o fewn Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, er mwyn i'r Pwyllgor wneud sylwadau amdano** |

**Cyflwyniad**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23, sydd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd hyd 26 Tachwedd 2021.

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gael yn llawn yn Atodiad A; fodd bynnag, mae penderfyniadau'r Panel sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| **Crynodeb o'r penderfyniadau newydd a diweddaraf yn yr adroddiad hwn** |
|---|
| **Prif Gynghorau** |
| ***Penderfyniad 1:***<br>Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800. |
| ***Penderfyniad 2:***<br>Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4. |
| ***Penderfyniad 3:***<br>Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 4:***<br>Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 5:***<br>Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4. |
| **Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth** |
| **Penderfyniad 13:**<br>Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth. |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Dylai'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a chynnig ymateb i'w ystyried gan Banel Aelodau Trawsbleidiol.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **Dogfennau cefndir:** | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** |

**Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd**

**30 Medi 2021**

At:
Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub,
Cynghorau Cymuned a Thref

29 Medi 2021

Annwyl Gyfaill

**Taliadau annibynnol ar gyfer Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/2023**

Mae Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2022/23 wedi ei atodi. Byddem yn gwerthfawrogi cael sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a fydd yn dod i ben ar 26 Tachwedd 2021.

Cynhelir etholiadau ar gyfer y prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref ym mis Mai 2022, felly bydd adroddiad nesaf y Panel yn cyd-ddigwydd â thymor newydd y cynghorau. Ers nifer o flynyddoedd nid yw taliadau i aelodau etholedig y 22 o brif gynghorau wedi cadw i fyny â'r cymharydd gwreiddiol a oedd yn cael ei ddefnyddio i bennu'r cyflog sylfaenol, nac unrhyw gymhariaeth sector cyhoeddus arall. Mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn adeg amserol i unioni'r sefyllfa hon ac ail osod y ddolen ag enillion cyfartalog Cymru (yn seiliedig ar dri diwrnod).

Hefyd, mae'r adroddiad drafft yn disgrifio newidiadau i'r fframwaith taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar ôl cynnal ymgynghoriad eang yn gynharach yn y flwyddyn.

Rydym yn edrych ymlaen at gael sylwadau ar y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad drafft, a byddwn yn ystyried yr holl ymatebion cyn cynhyrchu'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022.

Yn gywir

John Bader
Cadeirydd